

Creu Llywiwr Lloeren (Sat Naf) Siôn Corn

Llyfrau posibl i'w defnyddio fel ysgogiad i greu llywiwr lloeren i Sion Corn –

Diwrnod Gwyntog Rwdolff

Santa'n Dod i Gymru neu Santa'n Dod i Ogledd Cymru.

Gofynnwch plant greu adeilad/golygfa gan ddefnyddio darnau rhydd i gynrychioli'r gwledydd/llefydd y bydd Siôn Corn yn ymweld â nhw yn y stori.

Yn y llyfr Diwrnod Gwyntog Rwdolff mae'n ymweld ag Awstralia, Tseina, India, Cymru, Efrog Newydd. A all y plant ddefnyddio darnau rhydd tu allan i greu ac adeiladu adeilad neu dirnod i gynrychioli'r gwledydd hyn?

Gyda'r stori 'Santa'n Dod i Gymru' gofynnwch i'r plant greu map o Gymru ar raddfa fawr gan ddefnyddio e.e. rhaffau/ ffyn/ brigau ac i adeiladu a lleoli gwahanol fathau o dai ar y map, er enghraifft tai gyda simneiau mawr yn Wrecsam, simneiau bach yn Abertawe, tai gyda simneiau cul yn Nhŷ Ddewi a thai gyda simneiau llydan yng Nghaernarfon, gan ddefnyddio darnau rhydd e.e. cratiau, teiars ac ati.

Yna, bydd angen iddynt gynllunio daith a chreu cyfarwyddiadau i Siôn Corn. Gallai hyn fod ar lafar, drwy gyfrif yn uchel faint o gamau ymlaen, troi i'r dde/chwith, chwarter tro i'r chwith/dde, clocwedd/gwrthglocwedd etc.

Gofynnwch i'r plant greu rhestr ac adrodd y cyfarwyddiadau yn yr un modd ag a glywir ar lais llywiwr lloeren (sat nav). Mae hyn yn bosibl o fewn *Seesaw* fel a ddangosir yn yr enghraifft, a hefyd mewn apiau/rhaglenni eraill.

Bydd y plant yn datblygu amrediad o sgiliau wrth wneud y gweithgaredd hwn:

- Wrth adeiladu golygfeydd/adeiladau byddant yn defnyddio a datblygu amrediad o iaith fathemategol i ddisgrifio maint, lleoliad, cyfeiriad a siâp. Byddant yn archwilio sut i greu adeiladau siâp 3D a sut y gallant ffitio gyda'i gilydd.
- Dilyn cyfarwyddiadau
- Symud i gyfeiriad a nodwyd
- Gwneud troadau llawn, hanner tro, chwarter tro, clocwedd a gwrthglocwedd
- Cyfrif camau
- Darllen ac ysgrifennu rhifau wrth greu'r llywiwr lloeren
- Gwneud amcangyfrif synhwyrol, ee y pellter rhwng dau leoliad
- Defnyddio mesurau ansafonol a safonol i fesur pellter
- Defnyddio pwyntiau cwmpawd i ddisgrifio cyfeiriad.
- Amser – amseru'r llwybr, a all Siôn Corn ddanfôn yr anrhegion mewn llai nag e.e. 5 munud? Defnyddio amseryddion i amseru faint a gymer i ddanfôn yr anrhegion. Cyfrifo'r amser cychwyn a gorffen.
- Cyflwyno'r gwaith ar lafar, trwy luniau ac mewn ysgrifen.

Anogwch y plant i feddwl ac i ddewis yr offer mwyaf priodol ar gyfer y dasg.

Yn ystod yr weithgaredd byddant hefyd yn datblygu sgiliau eraill yn y maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Dysgu am bellter a sut i ddilyn cyfarwyddiadau a chyfeiriadau
- Defnyddio a llunio mapiau syml

Posibiliadau eraill i ymestyn y weithgaredd:

- Darparu sach o anrhegion i Siôn Corn eu danfon gyda chliwiau ynghylch faint/pa fath o anrhegion i'w danfon i wahanol fannau. Gallai'r plant hefyd greu eu cliwiau eu hunain.
- Gofynnwch i'r plant greu grid cyfesurynnau gydag e.e. sialc ar lawr yn yr ardal tu allan. Yna, darparwch gyfarwyddiadau neu i'r plant greu cyfarwyddiadau i symud o un sgwâr cyfesurynnau penodol i sgwâr arall.
- A yw'r plant yn gallu creu drysfa allan o'r darnau rhydd a chofnodi taith Sion Corn drwy'r ddrysfa? Pa lwybr fyddai'r cyflymaf? A fydd Sion Corn yn gallu dod o hyd i'r ffordd allan mewn digon o bryd?
- Gallai'r plant dynnu llun o'u map/golygfa a'i uwchlwytho i'r rhaglen gan ddefnyddio'r rhaglen crwban yn jit 5 ar HwB ac yna creu eu algorithm.